**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNED A TAI**
**22 EBRILL 2024**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Llun 22 Ebrill 2024.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Helen Brown (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Gillian Brockley, Tina Claydon, David Evans, Ted Palmer, Kevin Rush, Dale Selvester a Linda Thew

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: Mel Buckley (ar ran Geoff Collett) a Bill Crease (ar ran Pam Banks)

**YMDDIHEURIAD:** Y Cynghorydd Rosetta Dolphin

**HEFYD YN BRESENNOL:**Y Cynghorwyr: Marion Bateman a Debbie Owen, oedd yn bresennol fel arsylwyr.

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Sean Bibby (Aelod Cabinet Tai ac Adfywio); Prif Swyddog (Tai a Chymunedau), a Rheolwr Gwasanaeth (Asedau Tai)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau ac Addysg

## 83. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cynghorydd Ted Palmer gysylltiad personol fel Tenant y Cyngor.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod gan yr ystyrir bod yr eitemau canlynol wedi'u heithrio yn rhinwedd paragraff(au) 14 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

## 84. GWAITH CYFALAF – CAFFAEL GWAITH AMLEN SAFON ANSAWDD TAI CYMRU (SATC) AR EIDDO SY'N EIDDO I'R CYNGOR (TOI, PWYNTIO, RENDRO, FFENESTRI A DRYSAU AC ATI)

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth (Asedau Tai) adroddiad i geisio cymeradwyaeth gan y Pwyllgor, i benodi dau gontractwr: trwy Ddyfarniad Uniongyrchol drwy Fframwaith Procure Plus, i wneud gwaith ar gragen allanol gyfan 1,500 o adeiladau dros y pum mlynedd ariannol nesaf. Mae'r gwaith hwn yn parhau ag ail ran o welliannau cyfalaf sydd wedi'u cynllunio er mwyn sicrhau bod cartrefi'r Cyngor sy'n cael eu rhentu yn parhau i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) a'r holl ofynion deddfwriaethol.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth gefndir a throsolwg o'r ymarfer tendro gyda Procure Plus a pherfformiad y contractwyr.

Fe soniodd y Cynghorydd Ted Palmer am y gwaith oedd wedi cael ei wneud gan y contractwyr. Dywedodd fod y gwaith wedi bod yn dda iawn a bod unrhyw broblemau wedi cael eu datrys yn gyflym.

Gan ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd David Evans am waith oedd yn cael ei wneud ar eiddo oedd yn cyffwrdd ag eiddo preifat, rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth fanylion am y broses ymgysylltu gyda pherchnogion eiddo preifat a phenodi syrfëwr trydydd parti yn annibynnol.

Cafodd yr argymhelliad fel yr amlinellir yn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd Ted Palmer a'i eilio gan y Cynghorydd Kevin Rush.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r Cabinet ac Aelod Cabinet Tai i gymeradwyo'r Dyfarniad Uniongyrchol i'r ddau gontractwr, fel yr amlinellir yn yr adroddiad, i ymgymryd â'r gwaith ar gragen allanol gyfan yr adeiladau drwy'r fframwaith Procure Plus.

## 85. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 am a daeth i ben am 11.13 am)

....................................................

**Y Cadeirydd**